Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Penrhyn Dewi

**Campws Dewi**
**Tyddewi**
**Sir Benfro**
**SA62 6QH**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Penrhyn Dewi

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Penrhyn Dewi |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Penfro |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Pob oed |
| Cymeriad crefyddol | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 613 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 555 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 38 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd mewn ysgolion pob oed yw 20.4%) | 10.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion pob oed yw 22.3%) | 24.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/10/2022 |
| Yr ysgol hon yw'r ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon.<br><br>Hwn yw'r arolygiad cyntaf o'r ysgol. | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae ffocws gofalgar a chefnogol yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Penrhyn Dewi, a ffocws clir ar ddatblygiad personol a lles ei disgyblion a'i staff. Ategir yr ethos hwn gan werthoedd Cristnogol cryf. Mae'r ysgol yn darparu cymorth cryf iawn a thra ystyriol ar gyfer lles, anghenion corfforol, diwylliannol a moesol disgyblion, yn ogystal â'u hanghenion dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus a brwdfrydig ynglŷn â dod i'r ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw bryderon.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau. Gall disgyblion o gefndiroedd difreintiedig gymryd rhan yn llawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol trwy gymorth sensitif ac ar wahân. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn chwarae rhan lawn yn yr ysgol, a chânt eu cynorthwyo'n dda i sicrhau eu bod yn gallu ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain.

Ceir perthnasoedd gweithio da iawn rhwng staff a disgyblion. Yn y sector cynradd, mae ansawdd yr addysgu yn gyson uchel, ond mae hyn yn fwy amrywiol yn y sector uwchradd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd addas tra bod mwyafrif y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth ddigonol o ddysgu blaenorol perthnasol, ac yn gallu cymhwyso hyn yn dda i gyd-destunau newydd. Er bod llawer o ddisgyblion yn dangos safonau priodol o fedrau llythrennedd, rhifedd a digidol, ni chaiff y cynllunio ar gyfer dilyniant medrau disgyblion ar draws yr ysgol ei gydlynu'n ddigon da. Yn ychwanegol, wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol, prin yw'r cyfle iddynt ymarfer a datblygu eu medrau Cymraeg y tu allan i'r gwersi Cymraeg.

Mae staff yn gwneud defnydd rhagorol o'r gofodau awyr agored, yr ardal leol gyfagos a'r gymuned i ddatblygu profiadau dysgu go iawn. Mae disgyblion yn elwa'n llawn ar ystod eang y profiadau a gynigir mewn lleoliad unigryw.

Mae'r pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth newydd yn gydwybodol yn eu hymagwedd at arwain yr ysgol. Mae'r pennaeth yn angerddol o ran ei hawydd i roi'r addysg orau i ddisgyblion. Mae'n cefnogi lles staff a disgyblion yn dda.

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau addas i werthuso gwaith yr ysgol a chynllunio ar gyfer gwelliant yn briodol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn nodi meysydd i'w gwella yn ddigon manwl gywir nac yn gwerthuso addysgu yn ôl ei effaith ar ddeilliannau disgyblion yn ddigon da. Nodwyd ychydig o faterion iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad.

## Argymhellion

A1 Gwella cydlynu'r cynllunio ar gyfer cynnydd ym medrau disgyblion, gan gynnwys datblygu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu disgyblion ar draws yr ysgol

A2 Gwella ansawdd yr addysgu i gyd-fynd â'r arfer orau a welwyd yn yr ysgol

A3 Cryfhau prosesau sicrhau ansawdd i ystyried effaith gwaith yr ysgol ar safonau disgyblion, a mireinio cynllunio gwelliant

A4 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â defnydd yr ysgol o'r amgylchedd awyr agored ehangach a'r gymuned (Cynefin) i ymestyn profiad dysgu disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

# Prif werthusiad

## Dysgu

Pan fyddant yn dechrau yn y dosbarth meithrin neu'r dosbarth derbyn, mae lefelau llawer o ddisgyblion yn debyg i'r lefelau medrau llythrennedd a rhifedd a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran, neu'n uwch na nhw. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y sector cynradd yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu, ac mae llawer o ddisgyblion yn y sector uwchradd yn gwneud cynnydd addas. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o ddysgu blaenorol, ac yn enwedig yn y sector cynradd, gallant gymhwyso hyn yn dda i gyd-destunau newydd. Yn y sector uwchradd, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus ac yn atgyfnerthu eu gwybodaeth. Fodd bynnag, yn y lleiafrif o wersi yn y sector uwchradd, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud digon o gynnydd yn eu gwybodaeth a'u medrau, yn bennaf oherwydd diffygion mewn addysgu, fel disgwyliadau isel athrawon. Mae llawer o ddisgyblion o bob oed ag ADY yn gwneud cynnydd priodol, o leiaf, yn unol â'u targedau.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn meddu ar fedrau iaith tra datblygedig. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn hyderus â'u cyfoedion mewn grwpiau ac yn cyfrannu'n dda at drafodaeth dosbarth cyfan. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r sector cynradd, mae llawer o ddisgyblion yn siarad am eu gwaith a'u diddordebau yn fywiog gan ddefnyddio ystod eang o eirfa briodol. Er enghraifft, maent yn siarad am sut maent yn adeiladu lloches sy'n dal dŵr ar gyfer anifeiliaid clai y maent yn eu rhoi yn y coetir. Maent yn siarad ag aeddfedrwydd cynyddol ac yn defnyddio ystod addas o eirfa yn dda i bwysleisio eu pwyntiau. Mewn ychydig o achosion, caiff disgyblion anhawster yn deall esboniadau, felly nid ydynt yn cymryd rhan mewn trafodaethau manylach am eu gwaith. Yn y sector uwchradd, mae mwyafrif y disgyblion yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau ac esboniadau athrawon. Mae llawer ohonynt yn esbonio eu rhesymu yn hyderus, ac mae ganddynt afael da ar eirfa sy'n benodol i bwnc. Er enghraifft, maent yn rhoi esboniad am ddatblygu ac archwilio syniadau a thechnegau yn eu gwaith celf.

Yn y sector cynradd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn hyderus. O oedran cynnar iawn, maent yn dechrau ynganu llythrennau i wneud synnwyr o eiriau. Erbyn diwedd y sector cynradd, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhugl o ystod addas o destunau, gan ddefnyddio goslef yn dda. Mae ychydig o ddarllenwyr llai hyderus yn defnyddio ystod briodol o strategaethau i ddarllen geiriau anghyfarwydd er mwyn gwneud synnwyr o'r testun. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn frwdfrydig am lyfrau y maent wedi'u darllen a'u hoff awduron. Maent yn mwynhau darllen ac yn disgrifio rhesymau pam mae'n well ganddynt rai awduron yn hytrach nag awduron eraill. Mae llawer o ddisgyblion o oedran uwchradd yn brasddarllen a llithrddarllen testunau yn llwyddiannus i nodi gwybodaeth berthnasol a dewis cysyniadau pwysig mewn darn darllen. Maent yn dechrau defnyddio rhesymu a dod i gasgliad yn effeithiol i ymestyn eu dealltwriaeth o weithiau llenyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dadgodio geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus trwy ystyried cyd-destun y frawddeg. O roi'r cyfle iddynt, mae disgyblion yn y sector uwchradd yn darllen ar goedd gyda rhuglder a mynegiant priodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda yn y sector cynradd. Mae llawer o ddisgyblion, o oedran cynnar, yn dechrau ffurfio llythrennau yn gywir gan ddefnyddio gafael briodol ar bensil. Wrth iddynt ddatblygu, maent yn ysgrifennu mewn ystod addas o fathau o destun, gan gynnwys llythyrau personol a ffurfiol. Maent yn ysgrifennu â graddau addas o gywirdeb tra bod y disgyblion mwy abl yn ysgrifennu adroddiadau diddorol estynedig, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr yn y person cyntaf. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n rhugl gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol i ennyn diddordeb y darllenydd, er enghraifft wrth adrodd am hanes goresgyniad y Ffrancwyr yn Sir Benfro.

Yn y sector uwchradd, o roi'r cyfle iddynt, mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gydlynus gyda lefel addas o gywirdeb a rheolaeth. Maent yn ennyn diddordeb y darllenydd yn addas, ac mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio arddull a geirfa effeithiol sy'n creu'r awydd i ddarllen ymlaen. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion oedran uwchradd yn dangos cywirdeb a rheolaeth dechnegol yn eu hysgrifennu. Maent yn gwneud camgymeriadau sillafu ac atalnodi sylfaenol, ac yn aml, nid ydynt yn ysgrifennu'n eglur nac yn gydlynus. Nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn defnyddio geirfa ddigon eang yn gywir yn eu hysgrifennu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau rhif sylfaenol cadarn sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn yn meddu ar ymwybyddiaeth sy'n datblygu o'r meintiau y mae gwahanol rifau yn eu cynrychioli. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio ffeithiau cysylltiedig yn dda i ddarganfod faint yn fwy o bwyntiau gwobr sydd eu hangen arnynt i gyrraedd eu targed. Mae disgyblion Blwyddyn 5 yn datrys problemau'n llwyddiannus gan ddefnyddio eu medrau lluosi i gyfrifo cymedr ystod o rifau, tra bod disgyblion Blwyddyn 6 yn tynnu llun ac yn dehongli graffiau yn gywir â graddfeydd cywir. Yn y sector uwchradd, mae llawer o ddisgyblion mewn mathemateg yn defnyddio pedair rheol rhif yn briodol i ddatrys problemau, er enghraifft wrth luosi ffracsiynau ac wrth gyfrifo â thrigonometreg. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau amcangyfrif addas ac yn datblygu eu medrau mesur yn dda. Maent yn plotio graffiau gyda chywirdeb ac annibyniaeth gynyddol. Maent yn dadansoddi a dehongli data yn effeithiol i ddatgelu patrymau a gwneud rhagfynegiadau.

O oedran cynnar, mae disgyblion yn datblygu medrau digidol yn briodol. Mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio cyfrifiadur llechen gyda'r cymorth lleiaf. Mae llawer o ddisgyblion dosbarth derbyn yn defnyddio apiau perthnasol yn annibynnol o restr. Maent yn tynnu lluniau digidol gan ddefnyddio lefel dda o reolaeth. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn gwneud defnydd mwy soffistigedig a phwrpasol o adnoddau digidol i greu taenlenni a graffiau. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau codio yn briodol, er enghraifft trwy raglennu tegan i symud o gwmpas grid i'w gyrchfan. Yn y sector uwchradd, mae disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn briodol trwy gyfleoedd i greu animeiddiadau, dadansoddi data a chyfuno dogfennau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ymateb yn gywir i gyfarchion Cymraeg sylfaenol. Mae disgyblion meithrin a derbyn yn canu caneuon a rhigymau yn Gymraeg ac yn adnabod lliwiau a rhifau wrth ymateb i gwestiynau gan oedolion. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn adnabod geiriau ac ymadroddion syml a ddefnyddir gan athrawon, ac yn ymateb iddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ac ynganu geiriau cyfarwydd yn gywir. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion symud trwy'r

ysgol, nid yw eu medrau Cymraeg yn datblygu'n ddigon da, yn enwedig eu medrau llafaredd. Mae'r defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion hŷn yn gyfyngedig y tu allan i'w gwersi Cymraeg.

O roi'r cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda, er enghraifft yn eu gwersi celf wrth ddatblygu a chreu mygydau wyneb mewn arddull o'u dewis nhw. Mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau'n ddychmygus i ddylunio a chreu roced. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau corfforol a chreadigol cadarn, er enghraifft wrth gynhyrchu a pherfformio dawns wedi'i seilio ar Barti Ddu neu greu modelau o dai crwn gan ddefnyddio eu fersiwn nhw o fangorwaith a dwb y maent yn eu creu o glai, tywod, mwd, dŵr a glaswellt. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn dda o oedran cynnar; er enghraifft, maent yn ymestyn, yn siapio ac yn pinsio clai i greu lampau diva i ddysgu am Diwali. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau meddwl yn dda pan roddir cyfle iddynt wneud hynny, er enghraifft i roi detholiadau o araith yn eu trefn o wahanol rannau o draethawd ar Macbeth yn eu gwersi Saesneg.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus a brwdfrydig ynglŷn â dod i'r ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod ble i ofyn am gymorth os oes ganddynt unrhyw bryderon neu os oes angen iddynt siarad ag oedolyn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo y bydd aelod o staff yn ymdrin yn brydlon ag unrhyw wrthdaro neu achos o fwlio, os bydd hyn yn codi.

Mae disgyblion yn barod i ymgymryd â rolau arwain ac eisiau bod yn rhan o fywyd yr ysgol. Maent yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i ymgymryd â chyfrifoldebau ar draws yr ysgol, fel bod yn aelod o Senedd yr ysgol ac arwain mewn gweithgareddau trwy fod yn helpwr y dosbarth, sef 'Helpwr Heddiw'. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol ac yn cael cymorth cryf i sicrhau eu bod yn gallu ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain, ac yn cymryd rhan yn ystod eang y gweithgareddau allgyrsiol a gynigir.

Mae gan Senedd yr ysgol ran bwysig mewn sicrhau bod gan ddisgyblion lais cryf yn yr ysgol ac yn gallu dylanwadu ar ei gwaith. Mae aelodau'r Senedd yn cynnig eu hunain i gael eu hethol gan eu cyfoedion ac yn mynd trwy broses ddethol drylwyr. Mae disgyblion yn cyfrannu syniadau ac awgrymiadau i'w hystyried, ac yn hyderus y bydd y rhain yn cael eu trafod ac y byddant yn cael adborth. Er enghraifft, teimlai disgyblion y byddai'n fuddiol gallu gweld prisiau'r bwyd poeth amser cinio, ac y byddai cael ci yn yr ysgol yn gwella lles disgyblion.

Mae disgyblion hŷn yn cynorthwyo disgyblion iau yn dda trwy ystod o weithgareddau. Er enghraifft, mae Blwyddyn 6 yn creu amrywiaeth o gemau ar gyfer disgyblion o oedrannau eraill i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn trefnu prynhawn chwaraeon ar gyfer disgyblion iau, ac yn ei gynnal gyda'r cymorth lleiaf gan oedolion. Mae disgyblion y sector uwchradd yn cynorthwyo a rhyngweithio â disgyblion y sector cynradd yn dda. Er enghraifft, mae'r rhai sy'n astudio datblygiad y plentyn yn gweithredu fel mentoriaid i ddisgyblion oedran cynradd. Yn ychwanegol, cydweithiodd disgyblion o bob oedran yng nghynhyrchiad cerddorol yr ysgol.

Pan fydd gwersi yn ysgogol a difyr, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda. Yn gyffredinol, maent yn bwyllog a chwrtais wrth iddynt symud o gwmpas yr ysgol, ac yn barchus tuag at oedolion a'u cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau dysgu'n annibynnol yn arbennig o dda. Maent yn dangos ymreolaeth yn eu dysgu ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau cynaledig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ac yn ymateb ar lafar mewn gwersi. Mae llawer ohonynt wedi paratoi'n dda ar gyfer gwersi, yn awyddus i ddysgu, ac yn ymgymryd yn gadarnhaol â'r tasgau a'r gweithgareddau a gynigir. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw lleiafrif o ddisgyblion oedran uwchradd yn dal ati i ganolbwyntio yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith, yn siarad yn frwdfrydig am brosiectau ac yn nodi gwaith y maent yn falch ohono. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddisgyblion uchelgeisiol a galluog. Maent yn dyfalbarhau â'u gwaith ac yn rhoi cynnig ar wahanol strategaethau i ddatrys problemau cyn gofyn i oedolyn. Maent yn cydweithio'n dda mewn parau a grwpiau bach ac yn cynorthwyo disgyblion eraill â'u gwaith, lle bo'n briodol. Mae llawer ohonynt yn rhoi ystyriaeth dda i'r adborth a gânt gan athrawon i wella'u gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd cael ffordd iach o fyw ac yn gwybod sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn amgylchedd cynhwysol sy'n parchu a dathlu amrywiaeth, ac yn hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gref o faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd. Er enghraifft, o ganlyniad i gysylltiad yr ysgol â Lesotho, mae disgyblion yn fwy ymwybodol o'r angen i arbed ynni a dŵr. Yn dilyn hyn, trefnodd disgyblion ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i annog pobl a busnesau lleol i ddiffodd eu pŵer am awr i wrthbwyso eu hôl-troed carbon.

Mae disgyblion yn mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd eleni o gymharu â'r llynedd, pan gafodd pandemig COVID-19 effaith negyddol yn genedlaethol ar bresenoldeb ysgol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn absennol yn barhaus.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r perthnasoedd gweithio cryf rhwng athrawon a disgyblion o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 11 yn nodweddion nodedig o Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Penrhyn Dewi. Fodd bynnag, mae amrywioldeb yn ansawdd yr addysgu rhwng sectorau, sy'n gyson uchel yn y sector cynradd ac yn fwy amrywiol yn y sector uwchradd.

Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn a chyfoes. Mewn llawer o achosion, maent yn meddwl yn ofalus am yr hyn yr hoffent i ddisgyblion ei ddysgu, ac yn cynllunio'u gwersi i gynnwys amrywiaeth o weithgareddau dysgu sy'n briodol o heriol ac ysgogol. Maent yn cynnal eu gwersi ar gyflymdra priodol ac yn addasu eu haddysgu yn fedrus i ymateb i gynnydd ac anghenion disgyblion unigol. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn rhoi esboniadau clir am gysyniadau allweddol ochr yn ochr ag adnoddau dysgu tra ystyriol. Pan fo'n briodol, maent yn cynnig modelau buddiol o waith o ansawdd uchel i ddisgyblion, ac yn eu cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â sut i asesu darnau gwaith penodol.

Mae bron pob un o'r athrawon yn fodelau iaith da, ac mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn fuddiol i gefnogi datblygiad medrau dwyieithog disgyblion. Mae llawer ohonynt yn atgyfnerthu'r defnydd o dermau allweddol a geirfa ehangach yn dda. Pan mae addysgu iaith yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn sicrhau eu bod yn defnyddio llawer o'r iaith darged wrth ryngweithio â disgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn symud o gwmpas yr ystafell ddosbarth yn bwrpasol i asesu dealltwriaeth disgyblion o'u gwaith, a'u helpu i wella. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio cwestiynau caeedig i wirio'r modd y mae disgyblion yn galw i gof yn briodol. Mewn mwyafrif o achosion, maent yn defnyddio cwestiynau agored i ymestyn ymatebion disgyblion ar lafar a dyfnhau eu meddwl.

Mewn lleiafrif o achosion, ceir amgylchedd dysgu bywiog. Mae athrawon yn cynllunio gwersi'n fanwl gywir ac yn eu cyflwyno â llawer o frwdfrydedd. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o ymddygiad disgyblion a'r hyn y gallant ei gyflawni, ac yn cynnal eu diddordeb trwy gynnig gweithgareddau iddynt sy'n ennyn eu chwilfrydedd ac yn eu herio i ddatblygu eu meddwl.

Mewn ychydig o achosion, nid yw'r addysgu yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Yn yr achosion hyn, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Nid ydynt yn defnyddio holi yn ddigon effeithiol i brocio ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Nid ydynt yn cynllunio eu gwersi'n ddigon gofalus i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu gwybodaeth bynciol neu'u medrau. Yn hytrach, caiff disgyblion eu cadw'n brysur ar dasgau nad ydynt yn eu herio ddigon ac nad ydynt yn cynnig llawer o amrywiaeth iddynt o ran sut maent yn dysgu.

Mae arweinwyr yn casglu ystod gynhwysfawr o ddata yn gysylltiedig â cham datblygu disgyblion, eu hymgysylltiad a'u cynnydd. Caiff hyn ei ddadansoddi a'i drafod yn rheolaidd i nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol, a sicrhau ymyriadau priodol ar eu cyfer.

At ei gilydd, mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni am gynnydd eu plentyn mewn nosweithiau rhieni, ac mewn adroddiadau interim ac adroddiadau diwedd blwyddyn. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae adroddiadau'n cynnwys gormod o ddisgrifiadau am yr hyn y mae disgyblion wedi'i wneud a dim digon o werthusiad o'u cynnydd na'r hyn y dylent ei wneud i wella.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion bron pob un o'r disgyblion. Mae'r cynllunio ar gyfer dysgu yn y sector cynradd yn gadarn ac yn hwyluso cynnydd cryf. Ar hyn o bryd, mae staff yn y sector uwchradd wrthi'n treialu methodolegau priodol amrywiol ar gyfer gweithredu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2023. Ar y cyd â'i hysgolion cynradd partner, mae'r ysgol wedi cytuno ar nodau cyffredin cytûn ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad i sicrhau cysondeb a phontio esmwyth i'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn defnyddio cyfleusterau arbenigol fel labordai gwyddoniaeth a gweithdai dylunio a thechnoleg yn effeithiol i gryfhau'r broses bontio rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd. Mae defnydd dychmygus o'r 'Cynefin' (yr ardal leol), yn enwedig yn y blynyddoedd cynharach, yn galluogi disgyblion i ddysgu mewn cyd-destunau dilys. Mae hyn yn cynnwys prosiect lle mae'r disgyblion iau yn gweithio gyda fferm leol i blannu llysiau ac wedyn datblygu eu medrau busnes wrth iddynt werthu eu cynnyrch.

Mae arweinwyr yn cynllunio'r cwricwlwm yn strategol i ddisgyblion hŷn astudio ystod eang o gymwysterau addas. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd gwerth chweil o'r ardal leol, ei hadnoddau a'i chyflogwyr i gefnogi cymwysterau galwedigaethol perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i astudio amaethyddiaeth, peirianneg, arlwyo, gofal plant a gweithgareddau awyr agored mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Mae'r cwricwlwm a phrofiadau cwricwlaidd yn gynhwysol ac yn hygyrch i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Ceir ethos Cymreig cryf ar draws yr ysgol. Yn y blynyddoedd meithrin a derbyn, mae'r ddarpariaeth yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn dda. Fodd bynnag, wrth i'r disgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol, mae'r ffocws ar ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau cyfathrebu yn Gymraeg yn llai cyson.

Ceir profiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion byd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i ddysgu am hanes cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a chymunedau lleiafrifoedd ethnig eraill. Er enghraifft, mae cwricwlwm y dyniaethau ym Mlwyddyn 8 yn cynnwys prosiect darllen wedi'i seilio ar y fasnach caethweision a materion sy'n berthnasol i gydraddoldeb. Mae cysylltiadau'r ysgol ag ysgol yn Lesotho yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion iau ddysgu am effeithiau tlodi mewn gwledydd sy'n llai datblygedig yn economaidd.

Mae staff yn cynllunio cyfleoedd priodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion o oedran cynnar. Fodd bynnag, ni chaiff y cynllunio ar gyfer cynnydd medrau disgyblion ar draws yr ysgol ei gydlynu'n ddigon da, ac nid yw wedi'i ddatblygu'n ddigonol yn y sector uwchradd. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi penodi tîm o gydlynwyr medrau sydd â chyfrifoldebau ysgol gyfan. Yn ddiweddar, mae'r cydlynydd llythrennedd wedi blaenoriaethu datblygu medrau ysgrifennu estynedig ac yn gwneud cynnydd addas mewn rhannu polisi marcio iaith a strategaeth ysgrifennu gytûn gyda'r staff. Mae'r cydlynydd rhifedd wedi datblygu arweiniad cefnogol a strwythuredig ynglŷn â chyflwyno a dadansoddi graffiau, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol yn defnyddio'i gofod helaeth yn yr awyr agored yn dda i ddisgyblion archwilio a datblygu eu medrau, gan gynnwys datblygu medrau datrys problemau a medrau corfforol. Er enghraifft, mae disgyblion meithrin yn datblygu medrau cymdeithasol, corfforol a datrys problemau yn briodol pan fyddant yn trosglwyddo dŵr gan ddefnyddio cafnau a theiars. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr sy'n datblygu medrau creadigol disgyblion ar draws yr ystod oedran, gan gynnwys cynllunio a pherfformio dawnsiau a gwaith celf o ansawdd uchel.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn gryf, ac mae profiadau dysgu'n hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o fyw yn iach yn dda. Mae asiantaethau allanol yn cynnig profiadau dysgu gwerthfawr ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys profiadau dysgu cefnogol ynghylch camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ethos gofalgar a chefnogol yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Penrhyn Dewi, a ffocws cryf ar ddatblygiad personol a lles ei disgyblion a'i staff. Mae'n gymuned gynhwysol, sy'n parchu gwahaniaethau ac unigoliaeth. Caiff

ethos yr ysgol ei ategu gan amgyffrediad moesol cryf wedi'i seilio ar ei gwerthoedd Cristnogol sy'n amlwg ar draws bywyd a gwaith yr ysgol.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn nodwedd gref. Mae'r cysylltiadau ag Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ystyried eu credoau, eu gwerthoedd a chwestiynau pwysig, a myfyrio arnynt. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn adeiladu'n dda ar y profiadau hyn. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ystyried a dathlu gwahanol ddiwylliannau trwy gysylltiadau â chymunedau yn Lesotho a Wexford.

Mae cymorth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol a threfnus. Mae adolygiad o'r agwedd hon a ddechreuwyd gan yr ysgol ac a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol wedi helpu'r ysgol i wella'i darpariaeth. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn goruchwylio'r gwaith hwn â thrylwyredd ac egni, ac fe'i cefnogir gan dîm cryf o gynorthwywyr cymorth dysgu. Maent yn darparu ymateb graddedig cynhwysfawr i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth o bartneriaid hefyd, fel 'tîm o amgylch y teulu', swyddog lles addysg a thîm cynhwysiant yr awdurdod lleol.

Mae cynlluniau datblygiad unigol disgyblion yn ddogfennau defnyddiol, sy'n disgrifio eu hanghenion dysgu ychwanegol a'r strategaethau y dylai staff eu defnyddio i'w cynorthwyo. Caiff effaith y cynlluniau ei monitro a'i gwerthuso'n rheolaidd gan y cydlynydd ADY, ac fe gaiff y cynlluniau eu haddasu i ddiwallu anghenion disgyblion unigol yn ôl yr angen. Hefyd, mae gan bob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol broffil un dudalen fuddiol, ac mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol yn eu cynllunio a'u haddysgu, ar y cyfan. Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol, ac mae cymorth bugeiliol yr arweinwyr sectorau mewn goruchwylio cynnydd ar draws yr holl bynciau yn nodwedd allweddol o'r broses hon. Mae'r datblygiadau hyn, y mae llawer ohonynt yn gymharol ddiweddar, yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol, o leiaf, o ran y targedau yn eu cynlluniau unigol.

Mae arweinwyr sectorau yn defnyddio ystod o strategaethau priodol i hyrwyddo ac annog presenoldeb ac ymddygiadau da. Maent yn cysylltu'n rheolaidd â theuluoedd disgyblion y mae eu presenoldeb yn peri pryder. Mewn achosion lle mae disgyblion yn methu mynychu neu'n amharod i fynychu'r ysgol yn rheolaidd, mae staff yn gwneud ymdrechion sylweddol i barhau i gefnogi eu cynnydd addysgol. Mae'r arweinwyr sectorau yn cefnogi lles y disgyblion mwyaf bregus yn dda ac yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ymddygiad gwael neu fwlio yn brydlon.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth cryf iawn a thra ystyriol ar gyfer anghenion corfforol, iechyd meddwl a lles disgyblion. Er enghraifft, bob bore, mae uwch reolwyr yn rhannu gwybodaeth allweddol â phob aelod o staff am les disgyblion bregus fel bod pawb yn gwybod ac yn deall y camau y mae angen eu cymryd i'w cynorthwyo yn ystod y diwrnod ysgol. Hefyd, caiff anghenion penodol disgyblion eu cefnogi gan gwnselydd, gweithwyr ieuenctid a staff cymorth yr ysgol. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda â phartneriaid allanol i gynorthwyo teuluoedd bregus, deall eu hanghenion ac ymateb iddynt.

Roedd y cymorth ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd yn ystod y pandemig yn helaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, cryfhaodd yr ysgol ei pherthnasoedd gweithio â'i chymuned. Mae'n parhau i gynorthwyo disgyblion a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi, ac mae hyn wedi dod yn ffocws cynyddol i waith yr ysgol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn gallu cymryd rhan yn llawn ym mhob agwedd ar waith yr ysgol trwy eu cynorthwyo yn sensitif ac yn gynnil.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar wrando ar farn disgyblion, a gweithredu arni. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i fynegi eu barn a dylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol trwy holiaduron rheolaidd ar agweddau ar fywyd ysgol, a thrwy fforymau fel y Senedd, Clwb Pride a'r Clwb Gwyrdd (y Clwb Eco). Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd teg a thryloyw i fod yn aelodau o'r rhain a chlybiau eraill trwy gyflwyniadau ac etholiadau grwpiau blwyddyn sy'n gynhwysol. Mae'r ysgol hefyd yn darparu ystod eang o weithgareddau a chlybiau allgyrsiol sy'n cefnogi datblygiad cymdeithasol a chorfforol y disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau chwaraeon, creadigol a diwylliannol fel 'parkour', 'daeargelloedd a dreigiau', gwyddbwyll, garddio a hwsmonaeth anifeiliaid.

Mae'r ysgol hefyd yn darparu ystod eang o gyfleoedd ar gyfer datblygu creadigrwydd, hyder a galluoedd mynegiannol disgyblion. Ceir darpariaeth gref ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi archwilio gwaith William Morris ac wedi ail-greu ei waith â'u dyluniadau eu hunain a fydd yn cael eu harddangos mewn oriel yng Nghaerdydd. Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn cynyrchiadau cerddorol hefyd, sy'n helpu datblygu eu hunanhyder a'u gallu i weithio'n dda â phobl eraill.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn gallu cael cyngor cadarn ar yrfaoedd i'w galluogi i symud ymlaen i'r camau nesaf priodol yn eu haddysg neu hyfforddiant. Hefyd, mae staff yn sicrhau bod disgyblion dan anfantais yn gallu elwa ar y cyfleoedd hyn trwy drefnu cymorth ymarferol i'w galluogi i ddilyn eu dewisiadau. Mae staff yn rhagweithiol iawn o ran gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd cyfoethog yn eu hardal i alluogi disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda phartneriaid busnes lleol, mentrau a sefydliadau cymunedol fel y Parc Cenedlaethol a'r RNLI.

Mae ethos a diwylliant yr ysgol gyfan yn ffafriol i les a diogelwch disgyblion. Mae pob aelod o staff yn ymgymryd â hyfforddiant addas ac amserol ar ddiogelu ac atal radicaleiddio. O ganlyniad, mae staff ar bob lefel yn deall eu rolau i gadw disgyblion yn ddiogel ac yn gwybod sut i godi pryderon ag unigolion dynodedig yn yr ysgol. Mae aelodau staff perthnasol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i roi ymatebion priodol i unrhyw bryderon. Yn gyffredinol, mae adeiladau'r ysgol mewn cyflwr da ac yn amgylchoedd pleserus i ddisgyblion ddysgu. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn gadarn. Tynnwyd sylw'r ysgol at ychydig o faterion iechyd a diogelwch.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth yn adnabod eu staff a'u disgyblion yn dda. Maent wedi ymrwymo i sicrhau llwyddiant a lles pob aelod o gymuned yr ysgol. Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi cyfraniad pob aelod o staff ac yn ymdrechu i ddarparu amgylchedd dysgu cyffrous, ac ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr ar gyfer yr holl ddisgyblion. Ar ôl cyfnod o ansefydlogrwydd yn arweinyddiaeth yr ysgol, mae'r

pennaeth wedi gweithio'n dda ag aelodau o'r corff llywodraethol a'r awdurdod lleol i sefydlu uwch dîm arweinyddiaeth sydd â rolau a chyfrifoldebau clir. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn uchelgeisiol, yn frwdfrydig ac wedi ymrwymo i ddatblygiad yr ysgol. Mae gweledigaeth arweinwyr ac ethos Cristnogol cryf yr ysgol yn cefnogi'r ysgol gyfan i 'fod yn llawen, cadw'r ffydd a gwneud y pethau bychain' yn dda.

Mewn cyfnod byr, mae arweinwyr wedi sefydlu ethos tîm effeithiol ar draws yr ysgol gyda phwyslais clir ar wella darpariaeth, deilliannau disgyblion a lles. Mae'r pennaeth ac arweinwyr eraill yn gosod disgwyliadau uchel ac yn rhannu eu gweledigaeth yn briodol ag ystod o randdeiliaid. Maent yn modelu ac yn hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol yn effeithiol, gan ddarparu gofal, cymorth a her briodol i staff. Fodd bynnag, mae'r pennaeth ac uwch arweinwyr eraill yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn y tymor byr, sy'n effeithio ar eu gallu i gymryd rôl fwy strategol mewn gwella gwaith yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer staff ar bob lefel, sydd wedi'u diffinio'n dda ac yn cael eu deall yn dda. Maent wedi trefnu'r ysgol yn bum sector yn ôl oedran, gydag arweinwyr sectorau cydnabyddedig yn cynorthwyo staff ac yn goruchwylio'r ddarpariaeth, deilliannau disgyblion a lles. Mae hyn yn darparu llinellau cyfathrebu ac atebolrwydd clir ym mhob sector, ac yn cyfrannu'n dda at berfformiad cyffredinol yr ysgol. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau ac arbenigedd staff ar draws yr holl sectorau, a rhyngddynt, i gynorthwyo disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn.

Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i reoli effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Maent yn nodi disgyblion o gefndiroedd tlawd a difreintiedig yn glir ac yn olrhain eu cyrhaeddiad a'u presenoldeb yn ofalus. Maent yn cynnig cymorth trwy adnoddau a chyngor cadarn. O ganlyniad, mae disgyblion o bob cefndir yn elwa'n gyfartal ar brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol naill ai yn yr ysgol, y gymuned neu'r tu hwnt.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth gan yr uwch dîm arweinyddiaeth, wedi dechrau sefydlu diwylliant o werthuso a gwella, sy'n rhoi addysgu a dysgu wrth wraidd y broses. Maent wedi gweithio'n agored ac ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid i ddatblygu eu harfer arwain a hunanwerthuso, gan gynnwys sicrhau ansawdd darpariaeth bresennol y cwricwlwm. O ganlyniad, mae athrawon a llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth eang o flaenoriaethau'r ysgol ynghylch addysgu a'u cynnydd tuag at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr yn ystyried barn y rhan fwyaf o randdeiliaid o fewn y cylch gweithgareddau hunanwerthuso a gwella. Megis dechrau cael eu cynnwys yn y broses hon y mae rhieni a gofalwyr.

Mae arweinwyr canol yn cyfrannu'n dda at y diwylliant gwerthuso a gwella, gan drafod agweddau ar addysgu a dysgu gyda rheolwyr llinell ac o fewn cyfarfodydd pwnc a sector. Gyda chymorth gan uwch arweinwyr a phartneriaid gwella, mae arweinwyr canol yn meddu ar ddealltwriaeth addas o gryfderau a gwendidau yn eu meysydd cyfrifoldeb. Maent yn nodi eu blaenoriaethau gwella yn eu pwnc neu'u sector eu hunain yn briodol. Er bod arweinwyr yn darparu cymorth a her addas ar gyfer staff ar bob lefel ar y cyfan, mae gormod o amrywiad o hyd yng nghysondeb y broses rheolaeth llinell ar draws pob sector a phwnc.

Mae gweithgareddau sicrhau ansawdd wedi helpu'r ysgol i nodi meysydd eang i'w gwella, fel medrau llythrennedd ac ysgrifennu estynedig disgyblion. Fodd bynnag, nid

yw arweinwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd yr addysgu yn ddigon da, yn enwedig o ran ei effaith ar gynnydd disgyblion. Er enghraifft, nid yw arsylwadau uniongyrchol o addysgu a dysgu ac adolygiadau llyfrau yn nodi nodweddion penodol o addysgu a dysgu yn ddigon clir nac yn eu gwerthuso â thrylwyredd neu fanwl gywirdeb.

Nid yw cynllunio gwelliant bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar yr agweddau sydd angen eu gwella. Er bod arweinwyr yn nodi blaenoriaethau buddiol ar gyfer gwella, nid ydynt bob amser yn ddigon manwl gywir am yr hyn y maent yn anelu at ei wella neu ynglŷn â sut beth allai llwyddiant fod. Mae hyn yn lleihau gallu arweinwyr i fonitro'n gywir yr effaith a gaiff camau gweithredu ar gynnydd disgyblion a thargedu dysgu proffesiynol i gael yr effaith fwyaf.

Mae arweinwyr wedi datblygu rhaglen gynhwysfawr o ddysgu proffesiynol ar gyfer staff. Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio'n dda ar wella addysgu wedi'i seilio ar ganfyddiadau o ymchwil. Yn ychwanegol, rhoddwyd cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ar draws sectorau i staff gydweithio a dysgu oddi wrth ei gilydd, er enghraifft i gefnogi gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer staff addysgu a staff cymorth, sy'n eu helpu i ymateb yn briodol i anghenion y disgyblion. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar ddiabetes, er enghraifft, sy'n galluogi staff i ymateb yn gyflym pan fydd angen. Fodd bynnag, gan fod llawer o'r mentrau hyn yn rhai cymharol ddiweddar, nid oes digon o amser wedi bod i ddysgu proffesiynol effeithio ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn falch o'u hysgol a cheir diwylliant datblygedig o ymddiriedaeth rhwng uwch arweinwyr a llywodraethwyr. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cefnogi'r ysgol yn dda, gan gynnwys hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach a recriwtio staff. Er bod llywodraethwyr yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol gadarn ynghylch gwaith yr ysgol, nid oes ganddynt bob amser ddigon o wybodaeth i herio arweinwyr yn ddigon da ym mhob agwedd, fel ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol. Mae'r rheolwr busnes yn gweithio'n hynod effeithiol gydag arweinwyr ac aelodau o'r corff llywodraethol i reoli cyllideb yr ysgol yn ofalus. Caiff cyllid grant ei wario'n briodol, ac mae wedi cyfrannu'n briodol at ddarpariaeth lles yr ysgol a deilliannau disgyblion, gan gynnwys i geisio gwrthbwyso effaith tlodi.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  29/12/2022